Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# The Bay Laser and Beauty Clinic
# Dyddiad y gweithgarwch: 21 Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Awst 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-854-7

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o The Bay Laser and Beauty Clinic fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o driniaethau croen cosmetig gan ddefnyddio dyfais goleuni pwls dwys i oedolion dros 18 oed.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith
nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy’n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig ar 21 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod y trefniadau atal a rheoli heintiau a'r trefniadau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau eich bod yn cynnal urddas y cleifion? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau y caiff triniaeth ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys y ffordd y caiff cyfarpar laser ei gynnal a'i gadw yn briodol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Cadarnhad o ran diffoddwyr tân
- Tystysgrifau yswiriant atebolrwydd

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod system cloi drysau ar waith i atal cleifion rhag galw i mewn, cyfyngu ar y defnydd o'r ardaloedd aros ac arddangos arwyddion yn y clinig i sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol.

Roedd y camau hyn yn cael eu cefnogi gan asesiad risg COVID-19, a oedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys camau priodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y camau hyn wedi cael eu rhoi ar waith a gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi llofnodi'r asesiad risg i gadarnhau eu bod yn deall.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y caiff preifatrwydd ac urddas y cleifion eu cynnal. Roedd hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod y cleifion yn gyfarwydd â'r newidiadau i driniaeth oherwydd COVID-19 a thrwy barchu eu gofod personol cyn darparu triniaeth ac ar ôl hynny. Dywedwyd wrthym fod drws y gellid ei gloi i sicrhau y gellir darparu triniaethau yn ddiogel, gan ystyried urddas y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system canfod tân wedi'i gosod ar y safle a bod y staff wedi cael hyfforddiant ar y cynllun gwacáu.

Gwnaethom gadarnhau bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddilys ar gael

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig nifer o newidiadau yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys amseru apwyntiadau i ganiatáu mwy o amser glanhau, rhoi cyfleusterau hylendid dwylo ym mhob rhan o'r clinig a sicrhau bod y carpedi yn cael eu glanhau'n broffesiynol.

Dywedwyd wrthym fod diweddariadau atal a rheoli heintiau yn cael eu rhannu â'r tîm drwy gyfarfodydd staff dyddiol a bod y strwythur tîm bach yn helpu i rannu'r diweddariadau hyn yn gyflym ac yn effeithiol.

Gwnaethom gadarnhau bod rhestrau gwirio yn cael eu darparu ym mhob ardal driniaeth i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ba gamau y mae angen eu cymryd ar ddiwedd pob dydd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cyfarpar laser a'r gwelyau yn cael eu glanhau rhwng apwyntiadau.

Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan asesiad risg COVID-19 cynhwysfawr, yr oedd yr holl staff wedi'i lofnodi i gadarnhau eu bod yn deall. Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys y manylion cynhwysfawr a welwyd yn yr asesiad risg. Cynghorir y lleoliad i adolygu ei bolisi atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn cynnwys y manylion angenrheidiol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i'r holl staff. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y darperir masgiau wyneb ailddefnyddiadwy i gleifion sy'n anghofio eu masg eu hunain. Er y cawsom gopi o weithdrefn yn amlinellu'r ffordd y caiff y rhain eu golchi ar y safle, cynghorir y lleoliad i ystyried a ddylid parhau i ddefnyddio masgiau ailddefnyddiadwy. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau ar y nifer o weithiau y gellir eu golchi a'r risg o ddirywio deunyddiau, a all effeithio ar effeithiolrwydd y masgiau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Cofnodion hyfforddi'r staff
- Polisi a gweithdrefnau diogelu
- Polisïau a gweithdrefnau amrywiol

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dangosodd y rheolwr cofrestredig lefel dda o wybodaeth mewn perthynas â'r gofal a'r triniaethau a ddarperir yn y lleoliad. Roedd y lleoliad yn cael ei gefnogi gan dîm bach ond hirsefydlog.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau a fyddai'n cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod staff newydd yn addas. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweliadau, cael geirdaon ac ymgymryd â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom fod polisi diogelu oedolion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion tîm diogelu'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod dau aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi, am nad ydynt wedi cael hyfforddiant ers 2014. Cynghorir hefyd fod y lleoliad yn ymgyfarwyddo â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan[1] pan gaiff y polisïau a'r anghenion hyfforddi eu hadolygu nesaf.

Gwelsom nad oedd nifer o'r polisïau na'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad yr adolygiad diwethaf na'r nesaf. Dylai'r rhain gael eu cynnwys yn yr holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

[1] https://www.diogelu.cymru

## Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi darparu triniaethau'n ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i esbonio triniaethau i gleifion, sut y caiff anghenion triniaeth eu hasesu a'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfarpar laser.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Protocolau triniaeth laser / IPL a rheolau lleol
- Contract Cynghorydd Diogelu rhag Laserau
- Tystysgrifau gwasanaethu laser / IPL

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi taflenni ysgrifenedig i'r cleifion a rhoi amser i ddarpar gleifion ystyried eu hopsiynau o ran triniaeth.

Cesglir hanes meddygol y claf fel rhan o'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod y driniaeth dan sylw yn addas. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n ceisio protocolau triniaeth a chyngor meddygol addas pe bai unrhyw amheuaeth o ran addasrwydd triniaeth a ddewiswyd.

Nodwyd bod angen i'r cleifion gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth, ac yna mewn apwyntiadau dilynol. Roedd y broses hon yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r buddiannau, ynghyd â chanlyniad tebygol y driniaeth dan sylw.

Gwnaethom ystyried y ffordd roedd y cyfarpar laser a'r ddogfennaeth gysylltiedig wedi cael eu cynnal drwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Gwnaethom nodi'r canlynol:

- Roedd protocolau triniaeth wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan weithiwr proffesiynol a oedd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y rhain ar gael ym mhob clinig er mwyn i'r staff gyfeirio atynt
- Roedd y cyfarpar laser wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar ac roedd camau dilynol wedi cael eu cwblhau.
- Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) wedi cael ei benodi ac roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o'r ffordd y byddai'n cysylltu ag ef pe bai angen cyngor ar ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel
- Roedd pawb sy'n gweithredu'r laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[2].

[2] Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac

Nid oedd rheolau lleol a adolygwyd yn ddiweddar ar gael ar adeg cynnal y gwiriad ansawdd. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd fod cyngor ar gael yn hawdd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a chawsom gopi o'r rheolau lleol wedi'u hadolygu yn union ar ôl y gwiriad ansawdd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

yn effeithiol.

# Cynllun gwella

Lleoliad: The Bay Laser and Beauty Clinic

Dyddiad y gweithgarwch: 21 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r lleoliad adolygu'r defnydd parhaus o fasgiau ailddefnyddiadwy. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau ar y nifer o weithiau y gellir eu golchi a'r risg o ddirywio deunyddiau, a all effeithio ar effeithiolrwydd y masgiau. | Rheoliad 15 | Yn dilyn yr arsylwad hwn, byddwn yn parhau i annog pob claf i ddod â'i fasg ei hun. Fodd bynnag, lle bydd rhywun wedi anghofio, darperir masg untro a dywedir wrth y cleient i fynd ag ef gydag ef pan fydd yn gadael y safle. Rydym wedi diweddaru ein polisi ar gyfer hyn. | C Green | Ar unwaith<br><br>09/08/2021 |
| 2 | Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod dau aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi, am nad ydynt wedi cael hyfforddiant ers 2014. Cynghorir hefyd fod y lleoliad yn | Rheoliadau 21 / 9 | Cwrs diogelu wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ionawr 2022 | C Green | Yn weithredol o 09/08/2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymgyfarwyddo â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan[3] pan gaiff y polisïau a'r anghenion hyfforddi eu hadolygu nesaf. | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad:

[3] https://www.diogelu.cymru